

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD
17 HYDREF 2017

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 17 Medi 2017.

YN BRESENNOL: Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Veronica Gay, Cindy Hinds, Dave Hughes, Joe Johnson, Colin Legg, Vicky Perfect, Paul Shotton a Owen Thomas

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cyngorwyr Bernie Attridge a Patrick Heesom yn bresennol fel arsylwyr

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd a'r Aelod Cabinet Cyllid, Y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydoedd a Chefn Gwlad; Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); a Phrif Swyddog (Strydweidd a Chludiant), Rheolwr Cyllid (cofnod rhif 33), Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd (cofnod rhif 36), Rheolwr Contract Prosiect Trin Gwastraff Gweddillol Gogledd Cymru (NWRWTP) (cofnod rhif 38).

HEFYD YN BRESENNOL: Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

31. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

32. AMRYWIAETH YN NHREFN YR AGENDA

Wedi awgrym gan y Cadeirydd, cytunwyd i newid trefn y rhaglen fel bod eitem 4 ar yr agenda – Rhagolygon Ariannol a Cham Un y Gyllideb 2018/19 - yn cael ei dwyn ymlaen.

33. RHAGOLWG ARIANNOL A CHAM CYNTAF CYLLIDEB 2018/19

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid adroddiad i ddarparu'r sefyllfa rhagolygon ariannol presennol ar gyfer 2018/19 ac ymgynghori ar gynigion Cam 1 Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor ar gyfer 2018/19. Rhoddodd wybodaeth gefndirol a chyfeiriodd at y rhagolygon ariannol a adroddwyd i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2017 ac fe'i manylwyd yn yr adroddiad. Dywedodd mai £11.7m oedd y "bwllch" oherwydd pwysau cenedlaethol, lleol a gweithlu, a'r rhagamcaniadau diweddaraf ar gyfer chwyddiant.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid ddiweddariad byr ar Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol i Gymru ar gyfer 2018/19 a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Pwysleisiodd fod y Setliad dros dro ar hyn o bryd a bod cadarnhad grant penodol i'w dderbyn ar 24 Hydref. Dywedodd fod y Setliad dros dro yn dangos gostyngiad o 0.9% mewn cyllid i'r Awdurdod a fyddai'n cynyddu'r "bwllch" o £1.6 - £1.9m oherwydd y cyfrifoldeb newydd dros ddiartrefedd a phwysau heb eu datrys.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid y byddai datganiad ar y Setliad dros dro a Cham 2 y broses gyllidebol yn cael ei wneud yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 19 Hydref, a'r Cabinet ar 24 Hydref, a byddai dadansoddiad o'r Setliad yn dilyn i bob Aelod.

Soniodd y Cyngorydd Aaron Shotton am effaith negyddol y Setliad dros dro a goblygiadau gostyngiad pellach mewn cyllid. Dywedodd y byddai'r Awdurdod a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn parhau i orfodi ei achos lobiö yn gadarn ar gyfer "gwella" cyn i'r Setliad Terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Dywedodd y Cyngorydd Shotton fod llawer yn dibynnu ar ddatganiad cyllideb Canghellor y DU ym mis Tachwedd a'r posibilrwydd o rywfaint o welliant yn y mesurau caledi a roddwyd hyd yma.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid ar y prif ystyriaethau fel y nodwyd yn yr adroddiad ynghylch pwysau sy'n dod i'r amlwg, pwysau ar bortffolios penodol, chwyddiant a risgiau.

Adroddodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) a'r Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) ar y pwysau ar bortffolios penodol a gweithredu effeithlonrwydd model ar gyfer eu portffolios priodol. Adroddodd y Prif Swyddogion hefyd am y sefyllfa gwydnwch cyfredol ar gyfer eu portffolios a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad ac a oedd yn nodi'r cyd-destun ar gyfer yr arbedion a'r effeithlonrwydd a gynigiwyd ar gyfer 2018/19. Cynhwyswyd manylion pellach am yr opsiynau portffolio ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd yn y Modelau Gweithredu a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) i'r sylwadau a'r cwestiynau a ofynnwyd ynghylch goleuadau stryd a chyflwyno polisi dim gwastraff ar yr ochr a fyddai'n cyd-fynd â chyflwyno ffi i geisio annog pobl i beidio gadael gwastraff gardd fel gwastraff ar yr ochr.

Cytunodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) i gwrdd â'r Cyngorydd Chris Dolphin i drafod y pryderon penodol a fynegwyd o ran atgyweirio a chynnal a chadw ffyrdd a goleuadau stryd yn ei Ward.

Ymatebodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) i'r cwestiynau ynghylch incwm ffioedd cynllunio. Dywedodd fod llawer o wasanaethau yn y portffolio Cynllunio yn orfodol ac y gellid ystyried cydweithio fel opsiwn ar gyfer rhai o'r gwasanaethau, ond eglurodd, er y gallai hyn ddarparu gwydnwch ni fyddai o reidrwydd yn arbed costau.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi sylwadau'r Pwyllgor ar y dewisiadau cyllideb portffolio a phwysau ariannol y portffolio; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn fodlon â'r dull a gymerwyd o ran Cam Un Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2018/19 ar gyfer y portffolios Strydwedd a Chludiant a Chynllunio a'r Amgylchedd.

34. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2017.

Materion yn codi:

Trefniadau Gorfodaeth Amgylcheddol a Pharcio Ceir Diwygiedig

Tudalen 9: Eglurodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin fod ei bwynt yn ymwneud â'r hyn y gallai'r Awdurdod ddysgu o'r ffordd yr oedd gweithredwyr gorfodaeth preifat yn gweithio gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth mewnol ar ôl 2 flynedd.

Tudalen 9: Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd Veronica Gay ynghylch lleoliad Hysbysiadau Cosb Benodedig dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod wedi gofyn am ychwanegu colofn ychwanegol ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol i gynnwys gwybodaeth ynghylch amser a lleoliad.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

35. STRATEGAETH MYNWENTYDD A GWASANAETHAU PROFEDIGAETH

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) yr adroddiad i ddarparu gwybodaeth am weithgarwch y Tîm Gwasanaethau Profedigaeth o fewn Strydwedd a Chludiant a chynigion i ymestyn y gwasanaeth i breswylwyr. Rhoddodd wybodaeth gefndirol a dywedodd fod nifer o heriau a risgiau yn wynebu'r gwasanaeth y bydd yn rhaid mynd i'r afael â nhw ac roedd yr adroddiad yn manylu ar y rhain a'r cynigion i ddelio â hwy.

Adroddodd y Prif Swyddog ar y prif ystyriaethau, fel y manylir yn yr adroddiad, ynghylch y polisi diogelwch cofebion, cynnal tiroedd, claddedigaethau iechyd y cyhoedd, gofod claddu, a ffoedd claddu plant. Dywedodd y Prif Swyddog mai cynnal a chadw tir oedd un o'r costau mwyaf oedd gan y gwasanaeth ac, gan gyfeirio at ffyrdd y gallai'r Cyngor leihau costau yn y dyfodol, cynigiwyd bod y Gwasanaeth yn ceisio datblygu polisi o weithio gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned a chymunedau lleol trwy sefydlu grwpiau gwirfoddol lleol i wneud gwaith cynnal a chadw yn y mynwentydd. Siaradodd y Cynghorydd Paul Shotton i gefnogi'r awgrym hwn fel ffordd ymlaen. Gofynnodd y Cynghorydd Owen Thomas a oedd ystyriaeth wedi cael ei roi i chwistrellu glaswellt i arafu twf mewn mynwentydd. Cytunodd y Prif Swyddog i wneud ymholiadau pellach ynghylch hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd David Evans a oedd ystyriaeth wedi cael ei roi i sefydlu mynwent newydd yn hytrach nag ymestyn y safleoedd presennol. Dywedodd y Prif Swyddog fod yr holl opsiynau'n cael eu hystyried a bod Tîm Asedau'r Cyngor yn edrych ar safleoedd posibl.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r newidiadau i'r drefn arolygu a rheoli bresennol ar gyfer cofebion o fewn mynwentydd sy'n eiddo i'r Cyngor;

- (b) Bod y Pwyllgor yn argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo cynlluniau i ymchwilio i gytundebau partneriaeth â chymunedau lleol i gynnal a chadw tiroedd ar gyfer mynwentydd a mynwentydd caeedig;
- (c) Bod y Pwyllgor yn argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r trefniadau newydd ar gyfer chwiliadau tai, mewn perthynas â chladdedigaethau lechyd y Cyhoedd;
- (d) Nodi'r lle presennol sydd ar ôl o fewn mynwentydd sy'n eiddo i'r Cyngor; a
- (e) Bod y pwyllgor yn argymhell bod y Cabinet yn cymeradwyo mabwysiadu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru i safoni Ffioedd Claddu Plant ar draws Cymru.

36. CEUDYLLAU A RHAGLENNI AILWYNEBU

Cyflwynodd Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd adroddiad i roi diweddariad ar y prosesau a ddefnyddir i nodi rhaglenni ail-wynebu a'r dulliau gorau o atgyweirio a chynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd. Dywedodd fod yr adroddiad yn amlinellu'r dull o adnabod ffyrdd, gan gynnwys y drefn arolygu a'r lefelau ymyrraeth a weithredir gan y Cyngor. Hefyd, rhoddodd yr adroddiad fanylion am wariant cyfalaf a lefelau buddsoddi ar yr amrywiol asedau priffyrdd, yr opsiwn triniaeth a ffafrir ar gyfer ffyrdd cerbydau megis trwsio tyllau, gwisgo'r wyneb neu ail-wynebu a budd cost trwsio ceudyllau dros dro.

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Chris Dolphin ynghylch cyflwr rhai ffyrdd, dywedodd Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd fod archwiliadau diogelwch rheolaidd yn digwydd a bod unrhyw ddiffygion wedi'u nodi a bod y gwaith atgyweirio angenrheidiol wedi'i drefnu. Cywirwyd diffygion a oedd angen sylw brys neu eu gwneud yn ddiogel adeg yr arolygiad. Mae diffygion nad ydynt yn berygl neu risg dybryd yn cael eu rhaglennu i'w hatgyweirio o fewn yr amser a ddiffinnir yn y polisi fel y nodir yn yr adroddiad. Cydnabu'r Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd y pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Dolphin a chytunodd i'w gyfarfod yn dilyn y cyfarfod i drafod y problemau penodol yn ei Ward ynglŷn â chynnal a chadw ffyrdd a goleuadau stryd. Dywedodd Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd fod y Cyngor yn adolygu ei bolisi arolygu bob 2 flynedd a byddai 'Polisi ar gyfer Arolygon Diogelwch Priffyrdd a Meysydd Parcio, Meini Prawf Ymyrryd ac Amseroedd Ymateb' yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo erbyn Gorffennaf 2018.

Mewn ymateb i sylwadau ac awgrymiadau gan Aelodau ynghylch yr angen i archwilio defnyddio mathau eraill o ddeunyddiau ar gyfer gwisgo arwyneb ffyrdd, dywedodd y Prif Swyddog bod nifer o gynhyrchion amgen wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol a byddai'n parhau i wneud ymholiadau ar yr awgrymiadau a gyflwynir ac adrodd yn ôl ar ei ganfyddiadau i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth, cytunwyd y byddai'r Aelodau'n cael gwybodaeth ynghylch pryd y cynhelir arolygiadau diogelwch priffyrdd yn eu Wardiau a byddai adborth yn cael ei ddarparu ar y sgoriau cyflwr.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

37. PARTNERIAETH GWASTRAFF RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd Rheolwr Contract Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (NRRWTP) adroddiad i roi diweddariad ar Bartneriaeth Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru. Rhoddodd wybodaeth gefndirol a chynghorodd yn dilyn dyfarniad llwyddiannus contract Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru i Wheelabrator Technologies Inc (WTI) fod y cyfleuster trin gwastraff Parc Adfer ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy bellach yn cael ei hadeiladu. Hyd y contract gyda Wheelabrator Technologies Inc oedd 25 mlynedd. Roedd y pum awdurdod partner hefyd wedi llofnodi Cytundeb Rhyng-Awdurdod a oedd yn ffurfioli eu partneriaeth ar hyd y contract. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai Parc Adfer yn gwbl weithredol erbyn 2020. Mae Wheelabrator Technologies Inc wedi ymgysylltu â'r gymuned leol a bydd yn parhau i wneud hynny trwy gydol y broses adeiladu ac i'r dyfodol.

Siaradodd yr aelodau i gefnogi'r Gronfa Budd Cymunedol a fyddai ar gael pan fyddai Parc Adfer yn weithredol a byddai'n werth £230k y flwyddyn ar gyfer prosiectau cymunedol yn ardal Glannau Dyfrdwy. Dywedodd Rheolwr Contract NRRWTP yn ogystal â'r Gronfa Budd Cymunedol, roedd y WTI, wedi lansio cronfa gymunedol cam adeiladu eu hunain o £50k dros y cyfnod adeiladu.

Siaradodd y Cynghorydd Aaron Shotton hefyd i gefnogi'r Gronfa Budd Cymunedol a dywedodd y byddai grwpiau cymunedol yn croesawu hyn a byddai o fudd i drigolion ardal Glannau Dyfrdwy. Eglurodd mai'r Cyngor fyddai'n penderfynu sut y dyrennir y Gronfa Budd-dal Cymunedol a byddai rhagor o fanylion ynglŷn â hyn yn cael eu darparu i'r Pwyllgor. Siaradodd y Cynghorydd Shotton hefyd am y canlyniad cadarnhaol y byddai'r ffioedd sy'n daladwy wrth y giât yn is na'r canllaw neu'r pris 'bid' a osodwyd ar y cychwyn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Owen Thomas, dywedodd Rheolwr Contract NRRWTP nad oedd cyswllt rheilffordd yn rhan o'r cynllun presennol, ond roedd potensial i gysylltu cyswllt rheilffordd yn y dyfodol.

Yn dilyn awgrym gan Reolwr Contract NRRWTP, cytunwyd y byddai'r Hwylusydd yn trefnu i'r Aelodau gael ymweliad safle â chyfleuster trin gwastraff Adfer Parc ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

PENDERFYNWYD:

- (a) b) Nodi cynnydd y gwaith o adeiladu Parc Adfer; a
- (b) Nodi'r dyddiad gweithredol a drefnwyd ar gyfer Parc Adfer.

38. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol er mwyn ei hystyried.

Dyweddodd yr hwylusydd fod gweithdy wedi'i drefnu ym mis Tachwedd i gynnwys Cludiant Ysgol. Cytunodd y Cynghorydd David Evans, er y gallai gweithdy fod yn ffordd addas o fynd â'r mater hwn yn ei flaen, dylai'r eitem barhau fel eitem i'r Pwyllgor am y tro, nes bydd y gweithdy wedi bod.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol; a
- (b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

39. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 yb a daeth i ben am 12.18 yp)

.....
Cadeirydd